



**Comisiwn
y Gyfraith**
Diwygio'r gyfraith

Y Cod Dedfrydu Crynodeb

**LCCP232 (Crynodeb)
27 Gorffennaf 2017**

Cynnwys

Geirfa gyfreithiol	4
Cyflwyniad	7
Y problemau gyda'r gyfraith bresennol	7
Y prosiect a'n cylchoedd gorchwyl	9
Amcanion y prosiect	10
Hanes y prosiect hyd heddiw	12
Camau nesaf	15
Y Cod Dedfrydu	16
Y Cod Dedfrydu Drafft	18
Ymgynghori	22
Y tîm yn gweithio ar y prosiect	23

GEIRFA GYFREITHIOL

Bil

Mae Bil yn gynnig ar gyfer deddfwriaeth newydd, neu gynnig i newid deddfwriaeth gyfredol, sy'n cael ei gyflwyno am drafodaeth i'r Cynulliad. Gall bil gael ei newid yn ystod ei daith drwy'r Senedd ond rhaid iddo gael ei basio gan y Cynulliad cyn iddo dderbyn Cydsyniad Brenhinol a dod yn Ddeddf y Cynulliad. Er hynny, fel y esbonir isod (gweler **Cychwyniad** isod), nid yw deddf yn cael ei gweithredu oni bai bod y ddeddf wedi dod i rym.

Llechen lan

Mae llechen lan yn newid penodol y Cod Dedfrydu. Y problem gyda'r gyfraith gyfredol yw bod newidiadau i'r gyfraith yn dod i rym mewn sawl ffyrdd gwahanol, gyda newidiadau yn aml yn berthnasol i droseddau a gyflawnir yn y dyfodol yn unig. Mae hyn yn golygu bod rhaid 'cadw' yr hen gyfraith am rai hen achosion sydd gerbron y llys, yn hytrach na'u diddymu. Mae hyn wedi golygu 'cadw' sawl hen ddeddf dros amser. Mae ... yn ateb y problem drwy ymestyn diddymiadau a chychwyniadau ym mhob achos, yn golygu bod y gyfraith newydd yn berthnasol i bob achos a nad yw'r hen gyfraith yn berthnasol i unrhyw achos a ddedfrydir ar ôl i'r Cod Dedfrydu gychwyn.

Cychwyn

Nid yw deddfwriaeth sylfaenol o reidrwydd yn dod i rym fel deddf yn syth pan fydd deddfwriaeth sylfaenol wedi'i hymddeddfu gan y Senedd a derbyn Cydsyniad Brenhinol. Mae rhaid dod â'r ddeddfwriaeth i rym cyn iddi fod yn effeithiol. Cychwyn yw'r gair a ddefnyddir i ddisgrifio darpariaeth ddeddfwriaethol yn dod i rym (h.y. o bryd mae'n dechrau cael effaith). Gweler **Darpariaethau cychwyn** isod am fanylion ynglŷn â sut mae deddfwriaeth yn dod i rym.

Darpariaethau cychwyn

Mae rhaid dod â'r ddeddfwriaeth i rym cyn iddi fod yn effeithiol (gweler **Cychwyn** uchod). Os na wneir darpariaeth i'r Ddeddf ddod i rym, yna bydd yn dod i rym ar ddechrau'r diwrnod y bydd y Ddeddf yn derbyn Cydsyniad Brenhinol. Serch hynny, mae hyn yn anghyffredin a gwnaiff mwyafrif y deddfau ddarpariaeth penodol ar gyfer dod i rym - adnabyddir y darpariaethau hyn fel darpariaethau cychwyn. Fel rheol, dywed darpariaeth cychwyn y bydd y ddeddfwriaeth naill ai yn dod i rym ar ddyddiad penodol neu ar ôl i gyfnod penodol basio, neu a gyfarwyddir gan weinidog y senedd.

Traddodi i ddedfryd

Mae modd delio â rhai achoson yn naill ai llys yr ynadon neu Llys y Goron. Mae'r Llys y Goron yn delio â throseddau difrifol a mae ganddynt fwy o bwerau dedfrydu na'r llys yr ynadon. Ble y teimlir gan Llys yr Ynadon bod eu pwerau dedfrydu yn annigonol i adlewyrchu difrifoldeb y drosedd, neu lle mae'r Llys y Goron yn delio â'r troseddwr ynglŷn â throseddau eraill, gall Llys yr Ynadon ofyn i'r achos gael ei drosglwyddo a'i dedfrydu yn Llys y Goron. Wrth wneud hyn, mae'r Llys yn naill ai gorfod traddodi'r troseddwr i'r ddalfa neu wneud i'r troseddwr ateb i fechnïaeth. Traddodi i ddedfryd yw enw y proses hwn.

Dedfrydau olynol/cyfredol

Ble y gosodir dwy ddedfryd neu fwy ar droseddwr, gall y dedfrydau gael eu gosod fel rhai olynol neu gyfredol. Mae dedfrydau cyfredol yn cael eu bwrw ar yr un pryd, er enghraifft bydd dwy ddedfryd cyfredol o ddwy flynedd yn arwain at ddedfryd gyfan o ddwy flynedd. Ble y

gosodir dedfrydau yn olynol, bydd y troseddwr yn bwrw un dedfryd ac yna bwrw'r llall ar ôl i'r cyfnod y ddedfryd wreiddiol ddod i ben. Er enghraifft, gall dwy ddedfryd olynol o ddwy flynedd arwain at ddedfryd gyfan o bedair blynedd.

Newidiadau canlyniadol

Yn aml pan gwneir newidiadau i'r gyfraith, megis cyflwyno gweinyddiad dedfrydu newydd, mae angen diweddarau nifer o ddarpariaethau deddfwriaethol i adlewyrchu'r newid hwn er mwyn i'r gyfraith allu parhau i weithio'n iawn. Adnabyddir y newidiadau dilynol hyn fel newidiadau canlyniadol: maent yn newidiadau sydd wedi cael eu gwneud fel canlyniad o ddeddf newydd.

Deddfau Cydgrynhoi

Yn aml, mae'r gyfraith ar gyfer un pwnc penodol yn cael ei cynnwys mewn mwy na un Ddeddf Seneddol. Yn syml, mae Deddfau Cydgrynhoi yn ail-ddweud y gyfraith gyfredol, yn dod â darpariaethau a gynhwysir mewn Deddfau gwaholol i un darn o ddeddfwriaeth. Ni châi gydgrynhoad effaith ar y gyfraithbresennol, er maent weithiau yn cynnwys ambell gywiriad a gwelliannau.

Y gyfraith gyfredol

Y gyfraith mewn grym ar ddechrau'r ymarfer ymgynghori.

Cod Dedfrydu Drafft

Y Cod Dedfrydu Drafft yw pwnc yr ymarfer ymgynghori hwn. Y Cod Dedfrydu fydd y ddeddf ddedfrydu ddrafft wedi'i hymddeddfu.

Grŵp o Rhannau, Rhannau, Penodau

Gwahenir Deddfwriaeth mewn grwpiau o Rhannau, Rhannau a Phenodau. Mae hyn yn golygu bod modd rhoi rhannau sydd yn gysylltiedig o ran thema mewn un lle penodol, a mae hyn yn helpu cyfeirnod.

Gwreiddiau

Gellir dod o hyd i rhain ar fersiwn y **Cod Dedfrydu drafft** a gynhwysir yn Atodiad 1. Mae gwreiddyn yn dangos lleoliad yn y gyfraith gyfredol o ddarpariaeth benodol y Cod Dedfrydu drafft. Mewn rhai achosion, nid oes un gwreiddyn unigol ac felly dengys sawl gwreiddyn. Digwyddiff hyn ble mae drafftio wedi dod â sawl darpariaeth a'u ail-drafftio mewn un darpariaeth. Ble mae drafftio a ddefnyddiwyd yn y Cod Dedfrydu drafft wedi bod yn ganlyniad **newidiad cyn-cydgrynhoad** (gweler isod) a newidodd y ddeddfwriaeth gyfredol, bydd gwreiddyn y cymal yn cynnwys cyfeirnod at "PCA". Ble nad yw'r cymal yn unig gynnyrch o gydgrynhoad a ble mae Cwnsler y Seneddol (gweler isod) wedi creu darpariaeth lawn neu'n rhannol i wella'r gyfraith, defnyddir y gair 'drafftio' i ddangos hyn yn y gwreiddiau.

Cwnsler y Seneddol

Cyfreithwyr llywodraeth arbenigol ydy Cwnsler y Seneddol. Maent yn gyfrifol am ddrafftio bob ddeddfwriaeth sylfaenol.

Gweithdrefn Seneddol

Mae gweithdrefn Seneddol yn rheoli achosion y Senedd. Mae'n cynnwys achosion a rheolir gan Ddeddfau Seneddol penodol, dyfarniadau a wneir gan y Llefarydd yn y Tŷ'r Cyffredin a

gan y Pwyllgor Gweithdrefnau yn y Tŷ'r Arglwyddi, Rheolau Sefydlog, a dealltwriaeth a chonfensiynau sefydlog nad yw wedi cael eu codeiddio. Mae gweithdrefn arbennig ar gyfer **Deddfau Cydgrynhoi** (gweler uchod) a adewir y Ddeddf gweithio trwy'r Senedd yn gyflymach. Mae'r cydgrynhoiad yn ail-ddweud y gyfraith ac felly mae'r darpariaethau eisoes wedi bod yn bwnc trafod y ddau Senedd.

Newidiad Cyn-cydgrynhoi (PCA)

Mae newidiadau Cyn-cydgrynhoi yn newidiadau a wneir i'r ddeddfwriaeth gyda'r bwriad o gynorthwyo â chydgrynhoi'r gyfraith, a chychwynnir y newidiadau hyn yn syth cyn i'r cydgrynhoiad gael ei ymddeddfu (felly yn cael effaith ar gyfer dibenion y cydgrynhoiad yn unig). Mae newidiadau Cyn-cydgrynhoi yn newidiadau i ddeddfwriaeth sydd angen cael eu gwneud cyn i'r Ddeddf Cydgrynhoi gael ei chyflwyno i'r Senedd. Fel rheol, maent yn gyfyngedig i wirio camgymeriadau mân a symleiddio'r gyfraith yn yr adran a gydgrynhoir.

Archwilio Cyn-Deddfwriaethol

Fel rheol, mae'r ymadrodd hwn yn cyfeirio at archwiliad manwl o ddrafft cynnar a weithredir gan Bwyllgor Dethol Seneddol cyn i'r fersiwn terfynol gael ei llunio gan y Llywodraeth. Ar gyfer y **Cod Dedfrydu Drafft** (gweler uchod), mae archwilio cyn-deddfwriaethol hefyd yn cynnwys ymarferion ymgynghori a weithredir gan Gomisiwn y Gyfraith yn penderfynu ar gynnwys a'r drefn y Ddeddf.

Y Cod Dedfrydu

Mae'r Cod Dedfrydu yn gydgrynhoiad o'r ddedfwriaeth bresennol yn rheoli gweithdrefn ddedfrydu, yn dod â darpariaethau o'r Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000, a rhannu'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 o blith eraill. Wedi'i ymddeddfu a'i dod i rym, bydd y Cod Dedfrydu yn fan galw am ddeddfwriaeth ynglŷn â'r gweithdrefn dedfrydu.

Rheolau llithriadau

Mae'r term rheol(au) llithriadau yn cyfeirio at bwerau'r llysoedd o dan adran 155 y Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000 ac adran 142 y Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 i newid dedfrydau a osodwyd eisoes. Gall y rheol hon wirio camgymeriad yn y gyfraith neu newid y ddedfryd a osodir ar droseddwr.

Darpariaethau trosiannol

Pan newidir y gyfraith gan y Senedd, mae darpariaethau trosiannol yn bodoli yn esbonio sut mae'r gyfraith yn berthnasol i achosion sy'n eistedd rhwng y ddwy rheolaeth. Mae'r darpariaethau hyn yn sicrhau bod trosiant llyfn rhwng dwy rheolaeth gyfreithiol wahanol, er enghraifft, yn esbonio os bydd rhai achosion yn dod o dân yr hen gyfraith, neu'r un newydd, ac o bosib cynnwys naill ai un neu'r llall wedi'u haddasu. Cysylltir y mater o ddarpariaethau trosiannol yn agos â '**Cychwyn**' (gweler uchod) a'r ffordd y gweithredir deddfau newydd.

Dyddiad trosiant

Y dyddiad trosiant yw'r dyddiad a nodir gan ddarpariaethau trosiannol cyn, neu ar ôl, i'r hen ddeddf ddod i ben a'r ddeddf newydd yn dechrau gweithio.

CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae dedfrydu troseddwr sydd naill ai wedi pledio'n euog i drosedd neu sydd wedi cael ei dyfarnu yn euog yn un o brif swyddogaethau'r llys troseddau. Dedfrydwyd 1.2 miliwn troseddwr yn Llys Troseddau Lloegr a Chyrmu ar ddiwedd mis Medi 2016.¹ Yn yr un flwyddyn, clywyd 4,241 o apeliadau yn Llys y Goron.² Derbyniwyd Y Llys Apêl (Adran Troseddau) 4,072 o geisiadau am ganiatâd i apelio yn edrbyn dedfrydu, pob un yn gofyn am sylw barnwr unigol ar gyfer y papurau.³ Cafwyd 'Caniatâd i apelio' ei ganiatáu i'w glywed cyn y llys mewn 1,294 o achosion.⁴
- 1.2 Mae'r orfodaeth o gosb yn dilyn collfarn o drosedd yn cael effaith mawr ar nifer fawr o bobl naill ai yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol ac felly mae'n hollbwysig bod y gyfraith yn rheoli gweithdrefn dedfrydu yn glir a rhesymegol. Mae hyn yn hanfodol nid yn unig ar gyfer troseddwr ond hefyd y farnwriaeth, y gweithredwyr cyfreithiol sy'n cynrychioli diffynyddion a'r erlyniad, y dioddefwyr a'u teuluoedd, a'r cyhoedd. Ar ben hynny, mae'n hanfodol bod y gyfraith yn rheoli gweithdrefn dedfrydu yn glir a rhesymegol er mwyn i'r drefn y llys rhedeg yn llyfn ac effeithiol.
- 1.3 Mae hi'r un mor bwysig bod y gyfraith yn rheoli sut gosodir dedfrydau yn glir ac ar gael i bawb. Mae'n hanfodol i'r rheolaeth cyfraith bod y gyfraith yn ddigon clir i adael i unigolyn ddeall effaith ei weithrediadau a'r gosb a fydd yn gyfrifol amdani o bosib. Mae'r gallu i adnabod a deall y gyfraith berthnasol yn hanfodol nid yn unig i gadw ffydd y cyhoedd yn y gyfundrefn gyfiawnder troseddol ond hefyd yn sicrhau bod y diffynnydd yn deall pam mae e/hi wedi cael y ddedfryd a osodwyd arno/arni a oes gyda fe/hi seiliau'r apêl posib.
- 1.4 Mae cyflwr presennol y gyfraith yn golygu bod yn amhosib disgrifio'r gyfraith yn rheoli gweithdrefn dedfrydu fel un glir, eglur, ar gael i bawb neu rhesymegol. Nid yw hyn yn unig yn annymunol mewn egwyddor ond mae effaith negyddol yn ymarferol, yn arwain at gamgymeriadau ac oedi di-angen, a rheini i gyd yn gostus.
- 1.5 Yn y bennod gyflwyno hon, byddwn yn archwilio'r problemau gyda'r gyfraith bresennol, a'r cyfleoedd a nodau'r prosiect a disgrifio yn bras sut rydym wedi mynd ati yn datrys y problemau hyn.

Y PROBLEMAU GYDA'R GYFRAITH BRESENNOL

- 1.6 Mae llif wedi bod mewn deddfwriaeth yn perthyn i ddedfrydu o ganlyniad i ddatblygiadau parhaol yn y system gosb dros y 30 mlynedd diwethaf. Mae'r amllder, bron yn bod yn flynyddol, o amrywiadau a mathau newydd o ddedfrydau, wedi'i gyfuno â'r ffordd y mae'r gyfraith yn cael ei drafftio a'i dod i rym, wedi'i arwain at y deddfwriaeth yn cysylltu â'r gweithdrefn dedfrydu gael ei gwasgaru mewn i ddwsinau darnau gwahanol o deddfwriaeth heb unrhyw strwythur clir a rhesymegol.

¹ Gweinyddiaeth Cyfiawnder, *Ystadegau Chwarterol y Llys Troseddau, Medi 2016* (16 Chwefror 2017) tabl Q5.1A.

² Gweinyddiaeth Cyfiawnder, *Ystadegau Chwarterol y Llys Troseddau: Medi 2016* (15 Rhagfyr 2016) tabl C12.

³ Y Llys Apêl (Adran Troseddau) Adroddiad Blynyddol 2015-16 (7 Chwefror 2017) Atodiad F.

⁴ Y Llys Apêl (Adran Troseddau) Adroddiad Blynyddol 2015-16 (7 Chwefror 2017) Atodiad D.

- 1.7 Fel enghraifft, detholwyd y ddeddf ddedfrydu a ddaeth i rym o Awst 2015. Roedd ein detholiad ni dros 1300 o dudalennau mewn hyd a gynhwysodd darpariaethau o Ddeddfau mor amrywiol â'r Ddeddf Ynadon Heddwch 1361, y Ddeddf Anghymhwysu Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986 a'r Ddeddf Cŵn Peryglus 1991.⁵
- 1.8 Nid yw ein detholiad hir hyd yn oed yn cyfleu'r gwir cymhlethdod a anhygrychedd y gyfraith bresennol. Mae hyn oherwydd bod yn cynnwys y gyfraith bresennol sy'n berthnasol i ddedfrydu troseddau diweddar. Mewn achosion a gynhwysir troseddau hŷn, weithiau troseddau a draddodwyd degawdau yn gynharach, mae rhaid cyfeirio at y rheolaethau gyfreithiol hanesyddol a oedd mewn lle ar yr amser a draddodwyd y trosedd, yn ogystal â'r gyfraith bresennol. Yn aml, mae'r ddeddfwriaeth hanesyddol hon yn dechnegol a chymhleth gyda'i heffaith a gweithred yn anodd i'w dehongli. Weithiau, nid yw eu bodolaeth yn barod amlwg.
- 1.9 Mae'r effaith y sefyllfa sydd ohoni yw bod y gyfraith ddedfrydu yn gymhleth iawn iawn ac anodd i farnwyr, ymarferyddion a lleygwyr ddeall. Mae'r nifer eithriadol o ddarpariaethau statudol yn perthyn i ddedfrydu, a'u diffyg strwythur eang, yn golygu ei bod bron yn amhosib i adnabod a dod o hyd i'r ddeddfwriaeth berthnasol, a phenderfynu pa bwerau sydd ar gael i'r gael i'r llys a pha ddyletswyddau sy'n perthyn i'r llys heb gyfeirio at ddogfen ymchwil arbenigol. Does dim dwywaith bod yn anodd i wirio pa Ddeddfau ac Offerynnau Statudol sydd o bosib yn cynnwys darpariaethau perthnasol. Ni chât'r darpariaethau ffurf sylfaenol hyd yn oed unwaith mae'r Ddeddfau ac Offerynnau Statudol wedi cael eu hadnabod. Mae hyn yn ei wneud yn anodd i ddeall eu heffaith nhw a sut maent yn gweithredu wrth ochr darpariaethau eraill.
- 1.10 Mae'r cymhlethdod hwn yn golygu bod camgymeriadau yn cael eu gwneud yn aml pan mae'r llys yn gosod dedfryd. Cynhaliwyd dadansoddiad yn 2012 o 262 achos a samplwyd ar hap yn Y Llys Apêl (Adran Troseddau). Profodd y dadansoddiad fod cymhlethdod y ddeddfwriaeth yn arwain at nifer eithafol o ddedfrydau yn cael eu pasio ar gam: roedd 95 o ddedfrydau anghyfreithlon yn y sampl.⁶ Nid ystyriwyd y dedfrydau hyn i fod yn rhai o ddifrifoldeb anaddas yn unig, .e.e. y rhain a gytunwyd gan Y Llys Apêl (Adran Troseddau) i naill ai byrhau ar sail bod y dedfrydau yn amlwg ormodol neu i'w gynyddu ar sail bod y dedfrydau yn drugarog heb fod angen, ond achosion lle yn syml gosodwyd y ddedfryd anghywir yn gyfreithiol.
- 1.11 Wrth reswm, dylai'r dedfrydau anghyfreithlon hyn gael eu cywiro. Ble y adnabyddir y camgymeriadau hyn, mae modd eu cywiro drwy'r dull "rheol llithriadau"⁷ neu drwy apêl i'r llys uwch. Mae'r eisteddiadau llys ychwanegol yn golygu mwy o gost i'r Gyfundrefn Gyfiawnder Troseddol ac oedi mewn eisteddiadau eraill. Mewn rhai achosion, ni sylwir y camgymeriadau o gwbl. Yn y dadansoddiad 2012 o 262 achos a sampwyd ar hap yn Y Llys Apêl (Adran Troseddau) fel y cyfeirir uchod, ni adnabuwyd rhai gwallau gan naill

⁵ Y Gyfraith Dedfrydu Lloegr a Chymru: Y Ddeddfwriaeth Bresennol (2015), ar gael fel pdf electronig llawn neu unedau ar wahân o <http://www.lawcom.gov.uk/project/sentencing-code/>

⁶ R Banks, *Banks on Sentence* (Gol 8 2013), cyf 1, p xii. Gwnaeth y 262 achos rhain gynnwys bob apêl droseddol wedi'i rhifo 1600 i 1999 yn 2012, ac eithrio "rhai sydd heb gael eu cyhoeddi, rhai yn perthyn i gollfarn, achosion heb gwmsler a'r rhai a oedd yng nghwrs achos."

⁷ Rhan 155 Deddf Pwerau Llysoedd Troseddol 2000 (Dedfrydu) a rhan 142 Deddf Llysoedd Ynadon 1980, bydd gan Llys y Goron a'r Llysoedd Ynadon bwerau i gywiro camgymeriadau ac i wneud newidiadau bach i ddedfrydau a osodwyd. Mae'r pŵerau rhain yn cael eu hadnabod ar lafar fel y "rheol llithriadau" ac felly mae rhaid cyflawni'r pŵerau hyn yn Llys y Goron o fewn 56 diwrnod ers i'r dedfryd gael ei osod.

ai'r bobl â chysylltiad â'r achos neu'r llys, a sylwyd y gwallau gan y dadansoddiad yn unig.⁸ Gall hyn arwain at anghyfiawnder sydd yn waeth na chynyddu'r cost o gywiro camgymeriadau'r gyfraith.

- 1.12 Mae cymhlethdod y gyfraith bresennol yn golygu bod eisteddiadau dedfrydu yn gosod baich di-angen ar y llys, hyd yn oed pan ni wnaethpwyd camgymeriadau. Cymer eisteddiadau dedfrydu amser hir i'w clywed yn aml o ganlyniad i'r cymhlethdodau o adnabod a deall y gyfraith berthnasol. Nid yw hyn yn achosi cost ac oedi gormodol yn unig yn sgil penderfyniadau dedfrydu ond gellir cael effaith gynyddol ar brydlondeb eisteddiadau eraill.
- 1.13 Mae hyn i gyd yn bodoli yn erbyn Cyfundrefn Gyfiawnder Troseddul gyda chefnidir o fod yn orbysur a phrin ei adnoddau lle mae'r amser cyfartaledd o gyhuddo trosedd i wneud y penderfyniad terfynol yn Llys y Goron yn 245 diwrnod⁹ a ble mae'r amser aros cyfartaledd am apêl i'r Llys Apêl (Adran Troseddau) yn 5.7 mis.¹⁰

Y PROSIECT A'N CYLCHOEDD GORCHWYL

- 1.14 Wrth ystyried y cefndir hwn, nid oedd yn syndod bod angen i ddiwygio'r gyfraith ddedfrydu. Cadarnhawyd y diwygiad hwn gyda chefnogaeth gref pan laniswyd prosiect Y Cod Dedfrydu gan Gomisiwn y Gyfraith yn Ionawr 2015. Cydnabuwyd pwysigrwydd y prosiect gan ffigyrau pwysig yn y Gyfundrefn Gyfiawnder Troseddol gan gynnwys yr Arglwydd Brif Ustus, Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus a'r ddau bennaeth professiwn y cyfreithwyr a bargyfreithwyr.¹¹
- 1.15 Mae'r prosiect Cod Dedfrydu yn rhan o'r 12fed raglen Comisiwn y Gyfraith ar ddiwygio cyfraith.¹² Dyma ein cylchoedd gorchwyl fel y cytunwyd â Gweinyddiaeth Cyfiawnder:

I ystyried cyfundrefnu'r gyfraith yn rheoli gweithdrefn dedfrydu, dealedig fel y proses yn gymwys o'r rheithfarn i osod y ddedfryd ac i lunio Cod trefniadaeth dedfrydu, wedi'i gynnwys mewn un Deddf gyda fframwaith clir a drafft sydd ar gael i bawb. Bydd y Cod newydd o'r fath yn darparu'r llys gydag un mancyfeirio sengl. Bydd yn gallu cymhwysu â newidiadau ac addasu i anghenion newidiol heb golli eglurder.

I gadw egwyddorion cyfraith dda mewn golwg: dylai fod yn angenrheidiol, clir, rhesymegol, effeithiol ac ar gael i bawb. Yn fras, i gael deddfwriaeth sy'n gweithio yn dda i bobl heddi ac yfory.

I sicrhau nad yw'r Cod newydd yn atal y Senedd ac awdurdod y Llywodraeth i weithredu newidiadau mewn polisi dedfrydu. Yn benodol, nid yw'r cosbau sydd ar gael i'r llys yn perthyn i drosedd o fewn maes y prosiect. heblaw am y ffaith bod ystyriaeth ohonynt wedi bod yn anosgoadwy i gyflawni'r amcan ehangach o gael un Cod

⁸ R Banks, *Banks on Sentence* (Gol 8 2013), cyf 1, p xii. Ar gael ar-lein hefyd at: <http://www.banksr.co.uk/images/Other%20Documents/Unlawful%20Orders/2012%20%2811%29%20Sentencing%20illegalities%20Sorted%20by%20error.pdf> (ymwelwyd diwethaf 13 Mehefin 2017).

⁹ Gweinyddiaeth Cyfiawnder, *Ystadegau Chwarterol y Llys Troseddau: Rhagfyr 2016* (30 Mawrth 2017) tabl T4.

¹⁰ Y Llys Apêl (Adran Troseddau) Adroddiad Blynyddol 2015-16 (7 Chwefror 2017) Atodiad B.

¹¹ <http://www.lawcom.gov.uk/project/sentencing-code/>.

¹² Y Ddeuddegfed Rhaglen o Ddiwygio'r Gyfraith (2014) Comisiwn y Gyfraith Rhif 354.

rhesymegol sengl. Yn debyg, ni ddylai'r Cod fwrw yn erbyn canllawiau dedfrydu, a dylai'r drafftio fod yn gyson, mewn cydweithrediad, â'r gwaith a wneir gan y Cyngor Dedfrydu.

AMCANION Y PROSIECT

1.16 Mae amcanion eang y prosiect Cod Dedfrydu yn driphlyg:

- (1) I sicrhau bod y gyfraith yn perthyn i'r gweithdrefn dedfrydu yn hawdd dealladwy a gweithredu o fewn fframwaith clir;
- (2) I ennill ffydd y cyhoedd yn y Gyfundrefn Gyfiawnder Troseddol; a
- (3) I sicrhau bod y Gyfundrefn Gyfiawnder Troseddol yn gweithio mor effeithiol â phosib.

1.17 Yn syml, amcan y prosiect yw creu un statud ddedfrydu sengl. Enwyd y statud hon fel y Cod Dedfrydu. Bydd y Cod Dedfrydu yn dod â'r holl ddeddfwriaeth bresennol yn rheoli dedfrydu o fewn un ymddeddiad sengl. Wrth wneud hyn, bydd yn sicrhau bod y gyfraith yn cael ei mynegi yn fwy clir, syml gydag iaith mwy cyson. Bydd y newidiadau hyn, wedi'u cyfuno â strwythur rhesymegol, yn gwneud y gyfraith yn fwy hygyrch ar gyfer eu defnyddwyr: y farnwriaeth, ymarferwyr ac aelodau'r cyhoedd.

Fframwaith clir

1.18 Nid yn unig bydd y casgliad hwn o ddeddfwriaeth yn dod o dan un penawd yn ei hegluro a'i symleiddio, ond bydd hefyd yn cyflwyno dull gwreiddiol am sut i ddelio â newidiadau i'r gyfraith a fydd yn symleiddio'r gweithdrefn dedfrydu'n sylweddol. Bydd y Cod Dedfrydu yn dileu'r angen i gyfeirio at y gyfraith hanesyddol a darpariaethau trosiannol¹³ drwy weithredu'r gyfraith bresennol i bob troseddwr â throseddau yn digwydd ar ôl i'r Cod Dedfrydu ddod i rym (heblaw am ble mae eithriadau cyfyngedig wrth angen i barchu hawliau sylfaenol troseddwr yn berthnasol).¹⁴ Rydym yn cyfeirio at y newid hwn fel "llechen lan".

1.19 Ni fydd y Cod Dedfrydu yn cyflwyno unrhyw gyfraith hawliau newydd neu benderfyniadau dedfrydu a ni fydd y Cod yn cael effaith ar ddedfrydau a osodir am unrhyw drosedd. Ni fydd yn newid y dedfrydau hiraf ar gael am drosedd, a ni fydd yn estyn ffiniau am ddarpariaethau dedfrydu byrraf. Yn bwysicach, ni fydd y Cod Dedfrydu yn cyfyngu ar ddisgresiwn barnwrol presennol wrth ddedfrydu a ni fydd yn ailosod y canllawiau dedfrydu neu newid/cyfyngu ar waith y Cyngor Dedfrydu. Ni chredwn y bydd

¹³ Ble gwneir newid i'r ddeddfwriaeth, mae 'newidiadau trosiannol' yn rhoi eglurder ynglŷn ag achosion sy'n eistedd rhwng yr hen gyfraith a'r un newydd. Maent yn nodi ble dylai'r hen gyfraith neu'r gyfraith newydd gael ei gweithredu i achosion o'r fath, yn ogystal â darparu unrhyw newidiadau angenrheidiol. Fel rheol, mae'r darpariaethau hyn yn cael eu cynnwys mewn deddfwriaeth eilaidd. Yn aml, mae eu presenoldeb yn anamlwg. Am fwy o wybodaeth, gweler D Greenberg, *Craies ynglŷn â'r ddeddfwriaeth* (gol 11 2017) para 10.1.26-10.1.28

¹⁴ Byddai gosod y gyfraith bresennol i droseddwr yn arwain at gosb mwy na'r un uchaf a oedd ar gael ar amser y trosedd, neu ddedfryd isaf, neu 'recidivist premium' (darpariaeth yn gofyn i'r llys drin â'r troseddwr yn fwy llym os oes collfarnau blaenorol gan y troseddwr), Trafodir hyn yn fwy manwl yn **Error! Reference source not found.**isod.

y Cod Dedfrydu yn cael unrhyw effaith arwyddocaol ar y nifer o garcharorion. Byddai unrhyw effaith posib yn esgeulusadwy.

- 1.20 Bydd y Cod Dedfrydu yn ddogfen "byw" a fydd yn gallu cael ei newid. Ein bwriad ni fydd gweld bod pob newidiadau dyfodol i'r gyfraith ynglŷn â'r gweithdrefn dedfrydu yn cael eu gwneud drwy newid y Cod Dedfrydu canolog hwn er mwyn cadw y manteision i'r gyfraith a fydd yn darparu.

Cyfraith glir a hawdd dealladwy

- 1.21 Bydd cyflwyniad y Cod Dedfrydu yn darparu'r gyfraith sy'n rheoli gweithdrefn dedfrydu gyda strwythur clir a rhesymegol, yn ogystal ag ail-ddweud y gyfraith mewn ffordd mwy sicr a hygyrch. Bydd yn sicrhau bod barnwyr yn ymwybodol o'u pwerau a chyfrifoldebau perthnasol a'r holl opsiynau sydd ganddynt yn annerch ymddygiad troseddu.
- 1.22 Bydd y Cod Dedfrydu hefyd yn ail-ddweud y gyfraith drwy ddefnyddio iaith fodern, yn ogystal â drafftio yn niwtral o ran rhyw. Gwneir newidiadau symleiddio i roi cysondeb ac eglurder ychwanegol i'r gyfraith, a bydd camgymeriadau a diffygion i'r gyfraith bresennol yn cael eu cywiro. Mae'r ffocws ar sicrwydd wedi bod yn egwyddor arweiniol yn y proses drafftio. Weithiau, mae'r gweithred o wneud effaith y gyfraith yn fwy clir a sicr wedi gofyn am ddarpariaethau gofynnol i'w hysgrifennu mewn drafftiau hirach, neu i'w gwahanu mewn darpariaethau amrywiol a rydym wedi gwneud hyn lle mae angen wedi bod i'w wneud.
- 1.23 Bydd y Cod Dedfrydu hefyd yn helpu gwneud y gyfraith fod yn glir o lawer gan beidio â gorfod cyfeirio at ddeddfwriaeth hanesyddol. Ni fydd y llysoedd yn gorfod cyfeirio at fersiynau hanesyddol o ddeddfwriaeth rhagor a dehongli darpariaethau trosiannol tywyll. Bydd angen i'r llysoedd gyfeirio at y Cod Dedfrydu yn unig ar gyfer troseddwr a gollfarnir ar ôl i'r Cod Dedfrydu ddechrau. Bydd y Cod Dedfrydu yn copïo'r darpariaethau hanesyddol rhain, hyd yn oed ble mae eithriadau i'r llechen lan yn berthnasol, yn ei wneud yn glir ble mae'n berthnasol - yn osgoi'r angen i ddefnyddwyr gyfeirio ac uniaethu â darpariaethau trosiannol cymhleth. Mae hyn yn cynrychioli gwyrriad sylweddol oddi wrth ymarfer presennol ac felly credwn ni y bydd y newid hwn yn cael effaith arwyddocaol.

Ffydd y cyhoedd yn y gyfraith

- 1.24 Tansellir ffydd y cyhoedd os bydd penderfyniadau dedfrydu yn aml yn anghyfreithlon, trugarog heb fod angen neu'n anaddas oherwydd trefn annealladwy y gyfraith bresennol. Byddai'r Cod Dedfrydu yn helpu lleihau'r digwyddiadau hyn ac felly ennill ffydd y cyhoedd yn y gyfundrefn.
- 1.25 Yn debyg, effeithir ffydd y cyhoedd pan mae'r gweithdrefn dedfrydu, a'r gyfraith yn berthnasol iddi, yn anghyraeddadwy ac annealladwy. Nodwyd gan Alison Saunders, y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, ar ddechrau'r prosiect hwn:¹⁵

Gall y proses o fod mewn llys fod yn ddychrynlyd o anodd i'r dioddefwr neu'r tyst. Yn aml, nid yw pobl yn cael eu hannog i fod yn rhan o'r achosion gan eu bod nhw'n naill

¹⁵ Mae'r holl sylwadau o lansiad y prosiect ar gael gyda phob cyhoeddiad tan heddiw a gwybodaeth bellach ynglŷn â'r prosiect ar ein gwefan <http://www.lawcom.gov.uk/project/sentencing-code/>.

ai yn poeni am faint o amser fydd y proses yn cymryd neu gan nad ydynt yn deall y proses sydd ar fin digwydd.

Er bod dedfrydu yn un cam y treial yn unig, mae'n hanfodol bod y cyhoedd yn deall y broses. Mae'r Cod newydd yn ystyried anghenion defnyddwyr y llys i gyd a bydd yn rhoi fframwaith clir am bob rhan y gweithdrefn dedfrydu. Bydd hyn yn gadael i'r cyhoedd gael dealltwriaeth well o'r drefn ddedfrydu a gobeithio bwrw'r pryder yn ychydig.

Dylai cyflwyno'r Cod Dedfrydu sengl hwn fynd yn bell yn cynyddu eglurder, yn gwella'r wasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd a'u ffydd yn y drefn ddedfrydu.

Gwella effeithiolrwydd

- 1.26 Bydd y Cod Dedfrydu yn helpu ymarferwyr a barnwyr i adnabod a deall y gyfraith berthnasol yn fwy effeithiol gan ddarparu sicrwydd ac eglurder i'r gyfraith. Bydd hyn yn lleihau'r tebygolrwydd o wneud camgymeriadau ac felly y nifer o apeliadau sydd angen i'w cywiro yn ogystal â helpu lleihau'r amser sydd angen mewn llys am ddedfrydu.
- 1.27 Bydd hyn yn rhyddhau adnoddau'r llys ar gyfer eisteddiadau eraill a helpu lleihau'r oedi arwyddocaol sydd ar hyn o bryd yn fwrn ar y llys troseddau: mae'r amser aros cyfartaledd cyfredol o'r cyhuddiad tan benderfynu trosedd yn 55 diwrnod yn y llysoedd ynadon¹⁶ a 245 diwrnod yn Llys y Goron.¹⁷
- 1.28 Mae ein hamcangyfrif gorau o elw ariannol clir am ymddeddfu'r Deddf Dedfrydu yw 255.57 miliwn dros ddeng mlynedd.

HANES Y PROSIECT HYD HEDDIW

- 1.29 Er bod cyhoeddiad y papur ymgynghori hwn yn nodi dechrau'r cyfnod ymgynghori ffurfiol y prosiect, rydym wedi gofyn am farn rhai dalwyr y fantol ers i'r prosiect ddechrau yn Ionawr 2015. Prif bwrpas yr ymgynghoriad hwn oedd hysbysu ein gwaith ynglŷn â strwythur y Cod Dedfrydu drafft ac i ystyried dulliau gwahanol o ddraftio a allai gael eu defnyddio.
- 1.30 Rydym wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau o gwmpas y bwrdd a'u cynnal gyda dalwyr allweddol y fantol mewn Llywodraeth¹⁸ ac academia;¹⁹ yn ogystal â rhai gydag

¹⁶ Gweinyddiaeth Cyfiawnder, *Ystadegau Chwarterol y Llys Troseddau: Rhagfyr 2016* (30 Mawrth 2017) tabl T3.

¹⁷ Gweinyddiaeth Cyfiawnder, *Ystadegau Chwarterol y Llys Troseddau: Rhagfyr 2016* (30 Mawrth 2017) tabl T4.

¹⁸ Gwnaethom gymryd rhan mewn cyfarfod Grwp Erlynwyr y Llywodraeth ar 7 Rhagfyr 2016 a fynychwyd gan gynrychiolwyr o'r Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol; Asiantaeth yr Amgylchedd; Gwasanaeth Erlyn y Goron; Awdurdod yn Gwasanaethu Erlyniad (SPA); Ofgem; Gweithredwr Iechyd a Diogelwch; Asiantaeth Forwrol ac Arfordirol; Asiantaeth Safonau Bwyd; Adran Gludiant; Swyddfa Twyll Difrifol; Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd; Adran Gwaith a Phensiynau; Cyfoeth Naturiol Cymru; Swyddfa'r Cyngor Dedfrydu; Ysgrifenyddiaeth Rheolau Trefniadaeth Troseddol; Ofsted; a'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.

¹⁹ 27 Gorffennaf mynychwyd gan Neil Stevenson (Gweinyddiaeth Cyfiawnder), John Grealis (Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol), Yr Athro Andrew Ashworth CF CBE (All Souls, Prifysgol Rhydychen), Yr Athro Martin Wasik CBE (Prifysgol Keele), Robert Banks (*'Banks on Sentence'*), Lyndon Harris (*Dull Dedfrydu Presennol*), Nicola Padfield (Fitzwilliam, Prifysgol Caergrawnt), Professor Barry Mitchell (Coventry University), a Dr Susan Easton (Prifysgol Brunel).

aelodau'r farnwriaeth, gan gynnwys grwpiau o Farnwyr Rhanbarth;²⁰ ac ymweliadau i nifer o ganolfannau Llys y Goron ar draws Lloegr a Chymru.²¹ Mae hyn wedi rhoi man cychwyn da i ni ar gyfer lansio'r ymgynghoriad llawn ac rydym yn ddiolchgar iawn am y mewnbwn a roddwyd gan y grwpiau hyn.

- 1.31 Rydym wedi bod yn ffodus iawn i gael ein gwahodd yn aml i gyfarfodydd gyda'r Cyngor Dedfrydu, Pwyllgor Diwygio'r Gyfraith o Gyngor y Bar a Phwyllgor Cyfraith Troseddau o Gymdeithas y Cyfreithwyr. Rydym hefyd wedi cael ein gwahodd i drafod y prosiect gyda'r Cwnsler Trysorlys yn y Llys Canolog Troseddau, Swyddfa Apeliadau Troseddol, Gwasanaeth Erllyn y Goron a mewn nifer o siambrau. Mae'r mewnbwn sydd wedi dod o'r gyfarfodydd hyn wedi bod yn hynod o werthfawr.
- 1.32 Cynaliasom ddau ymgynghoriad byr cyn i'r prif ymarfer ymgynghori ddechrau:
- (1) Roedd papur materion yn gofyn am farnau ymgynghorwyr am y trosiant i'r Cod Dedfrydu (fel y trafodir ym mharagraff 1.35 below); a
 - (2) Roedd crynhoad o'r gyfraith bresennol ynglŷn â'r drefn dedfrydu a sonir ym mharagraff 1.7 above yn gofyn am farnau ymgynghorwyr ar faes a chynnwys y gyfraith bresennol (fel y trafodir ym mharagraff 1.41 below).
- 1.33 Daeth y ymarferion hyn fod yn rhan o gyhoeddi 2 ddogfen: mae papur cychwynnol ymgynghori ac adroddiad dilynol yn crynhoi ymatebion yr ymgynghorwyr yn gwneud argymhellion neu yn dod i gasgliadau. Derbyniwyd cefnogaeth gyffredin gan ddalwyr y fantol am y dogfennau hyn.

Trosiant

- 1.34 Pryd mae newidiadau yn cael eu gwneud i'r gyfraith ynglŷn â dedfrydu, maent yn aml yn cael eu gwneud fel rhai posib/ar gyfer y dyfodol. Yn aml, mae darpariaethau trosiannol yn sicrhau bod y gyfraith newydd yn unig berthnasol os cyflawnwyd y trosedd (er enghraifft) ar ôl i'r newid dod mewn lle. Mae hyn yn golygu bod fersiynau hanesyddol o'r gyfraith yn berthnasol i achosion sy'n cynnwys troseddau a gyflawnwyd cyn i'r darpariaethau newydd ddod i rym. Mae hyn yn aml yn aneglur pan mae hyn yn digwydd. Yn ychwanegol, gall fod yn anodd adnabod y gyfraith sy'n berthnasol a sut mae'n cael ei gweithredu. Yn *R (Noone) yn erbyn Llywodraethwr Carchar Drake Hall ac un arall (Atebyddion)*, nododd Mr Justice Mitting ei bod wedi cymryd bron yn bod bum awr o amser yn y llys iddo ddeall effaith y darpariaethau trosiannol.²² Pan gyrhaeddodd yr achos Y Goruchaf Lys, nododd Arglwydd Phillips fel a ganlyn "Hunlle yw'r gair y byddwn i'n defnyddio i ddisgrifio'r problem o ddehongliad statudol a achoswyd gan y darpariaethau trosiannol hyn."²³

²⁰ Mynychom gyfarfod chwarterol Cylchdaith De Ddwyrain y Barnwyr Rhanbarth ar 7 Rhagfyr 2016 yn cynnal sesiynau bychan gyda 60 Barnwr Rhanbarth.

²¹ Llys y Goron Manceinion (Sgwar y Goron) (27 Ebrill 2017), Y Llys Canolog Troseddau (2 Mawrth 2017), Llys y Goron Caerwynt (3 Mawrth 2017) a Llys y Goron Rhydychen (28 Chwefror 2017).

²² [2008] EWHC 207 (Gwein), [2008] ACD 43 a [1].

²³ [2010] UKSC 30, [2010] 1 WLR 1743 at [1]. Darparir mwy o enghreifftiau ym mharagraff **Error! Reference source not found**.isod.

- 1.35 Cyhoeddwyd papur materion ar 1 Gorffennaf 2015.²⁴ Ystyriwyd cwestiwn hollbwysig ynglŷn â'r polisi a sut y byddai'r trosiad o'r gyfraith bresennol i'r Cod Dedfrydu yn cael ei weithredu. Cwestiynodd, yn neilltuol, broblemau a achoswyd gan y dull presennol i drosiant yn y ddeddf dedfrydu.
- 1.36 Gofynnwyd yn y papur materion sut y gallen ni gyflwyno'r Cod Dedfrydu yn y ffordd mwy effeithiol posib. Ein hamcanion ni oedd sicrhau eglurder a sicrwydd cyfreithiol uchaf gan leihau'r defnydd o ddarpariaethau trosiannol cymhleth tra hefyd yn parchu'r hawliau sylfaenol i'r rhai a effeithid gan y drefn dedfrydu.
- 1.37 Wedi hynny, cyhoeddod ni ein hargymhellion terfynol ynglŷn â'r trosiant i'r Cod Dedfrydu.²⁵ Dyma oedd ein hargymhellion allweddol:
- (1) Dylai Cod Dedfrydu gael ei ymddeddfu mewn ffordd sy'n dod â'r holl ddeunyddiau deddfwriaethol sylfaenol yn bosib o bwys i'r llys ar gyfer y proses dedfrydu mewn i un ymddeddfiad sengl.
 - (2) Dylai'r Cod Dedfrydu achosi effaith "llechen lan" o'r ddeddfwriaeth, yn dileu'r angen i gyfeirio at y gyfraith hanesyddol a darpariaethau trosiannol drwy osod y gyfraith bresennol i bob achos heblaw am ble mae eithriadau cyfyngedig yn eisiau i barchu hawliau sylfaenol yn berthnasol.²⁶
 - (3) Dylai'r Cod Dedfrydu fod yn berthnasol i bob achos lle mae'r troseddwr wedi cael ei gollfarnu
- 1.38 Gwnaethpwyd yr argymhellion hyn ar sail bod mwyafrif llethol yr ymgynghorwy o'u blaidd nhw. Yn benodol, derbyniwyd cefnogaeth gyffredinol am ein "llechen lan". Derbyniwyd cefnogaeth gref am y Cod Dedfrydu gan nifer o ddalwyr allweddol y fantol gan gynnwys y Llywodraeth, Cyngor EM y Barnwyr Rhanbarth, Cyngor y Barnwyr Cylchdaith EM a'r Gwasanaeth Erllyn y Goron. Er bod dull y "llechen lan" yn groes i'r tybiaeth gyffredinol yn erbyn ôl-weithrediad, amy rhesymau a osodir yn ein papur materion,²⁷ a dilyn'r gefnogaeth ar ymgynghori, rydym yn hyderus ei bod nid yn unig yn gyfreithlon ond yn ddymunol.
- 1.39 Gwnaeth Ei Anrhydedd y Barnwr Andrew Goymer, yn ysgrifennu ar ran Cygor EM Barnwyr Cylchdaith, y sylwadau dilynol ynglŷn â pha effaith y byddai'r llechen lan yn cael ar gyflwr anfoddhaol y gyfraith bresennol. Nododd fel a ganlyn:

Yn fras, rydym yn cefnogi'r cynllun yn gryf. Mae'r cyflwr presennol o'r ddeddf dedfrydu yn gywilydd i'n cyfreitheg. Mae'n hollol annerbyniol i gael cymaint o gymhlethdod ac

²⁴ Papur Materion 1 Gweithdrefn Dedfrydu: Trosiant (2015), ar gael yn <http://www.lawcom.gov.uk/wp-content/uploads/2015/06/Sentencing-Procedure-Issues-Paper-Transition-online.pdf>. Mae'r argymhellion y papur hwn yn cael eu trafod yn fwy manwl ym mennod 3 i 4 (gweler isod).

²⁵ Cod Dedfrydu Newydd Lloegr a Chymru (2016) Comisiwn y Gyfraith Rhif 365.

²⁶ Mae'r eithriadau hyn yn ddeublyg. Yn gyntaf, byddai'r cwestiwn am ble mae'r gyfraith yn berthnasol yn golygu bod cosb yn cael ei gosod a fyddai'n fwy difrifol na'r uchafgosp a allai wedi cael ei gosod ar amser y trosedd. Yn ail, ble fyddai'n arwain at ddedfryd isaf newydd, neu ofyn newydd i drin â cholffarn flaenorol fel ffactor gwaethyngol wrth ddedfrydu, a oedd ddim yn bodoli ar amser y trosedd, yn berthnasol i'r troseddwr.

²⁷ Papur Materion 1 Gweithdrefn Dedfrydu: Trosiant (2015), Rhan 3 i 5 ar gael yn <http://www.lawcom.gov.uk/wp-content/uploads/2015/06/Sentencing-Procedure-Issues-Paper-Transition-online.pdf>.

ansicrwydd o ganlyniad i statudau yn cael eu haenu ar ben ei gilydd a dod i rym mewn ffurf fesul tipyn neu yn waeth byth heb ddod i rym o gwbl. Rydym yn arnodi holl sylwadau'r farnwriaeth uwch a wnaethpwyd dros y blynyddoedd ynglŷn â chyflwr truenus y ddeddf dedfrydu.

- 1.40 Mae pennod 3 a 4 y papur ymgynghori hwn yn edrych ar y diwygiadau hyn a'u gweithred dechnegol ac ymarferol yn fwy manwl. Mae'r casgliadau yn y penodau rhain yn adlewyrchu'r polisi a gyrhaeddwyd o ganlyniad ymgynghoriad blaenorol. Nid yw'r polisiâu rhain yn bwnc yr ymarfer ymgynghoriad hwn.

Y Gyfraith Bresennol

- 1.41 Ar 9 Hydref 2015, cyhoeddwyd ein crynhoad o'r gyfraith ynglŷn â dedfrydu fel yr oedd ar 1 Awst 2015.²⁸ Roedd y crynhoad hwn yn 1300 tudalen mewn hyd ac felly dyna oedd y tro cyntaf, hyd y gwyddom, bod crynhoad thematig a chynhwysfawr o'r gyfraith wedi cael ei gyhoeddi. Roedd y crynhoad yn agored i ymgynghoriad ac archwiliad y cyhoedd am 6 mis. Rydym yn hynod o ddiolchgar i'r Gwasanaeth Erlyn y Goron am ddarparu'r ddogfen ynglŷn â'r gyfraith bresennol i Adfocadau y Goron i'w defnyddio wrth baratoi am ddedfrydu yn ogystal ag ymgymryd ag adolygiad manwl o waith am gamgymeriadau a hepgoriadau. Rydym hefyd yn ddiolchgar i'r Cyngor y Bar a'i aelodau am baratoi nodiadau manwl iawn am rhan sylweddol y ddogfen.
- 1.42 Ar 7 Hydref 2016 cyhoeddwyd adroddiad interim ynglŷn â'n crynhoad ni o'r ddeddfwriaeth bresennol.²⁹ Yn amodol ar ambell camgymeriad bach, cytunwyd gan yr ymgynghorwyr bod y crynhoad yn gywir a chynhwysfawr. Ffurfiodd ein crynhoad o'r gyfraith bresennol, wedi'i gyfuno ag ymatebion ymgynghorwyr i'r cwestiynau a ofynnwyd ynglŷn â'r posibiladau perthnasol y Cod Dedfrydu (beth dylai/ddylai ddim gael ei gynnwys yn y Cod Dedfrydu), sylfaen ein canllawiau i'r Cwnsel Seneddol yn drafftio'r Cod Dedfrydu ei hunan.

CAMAU NESAF

- 1.43 Mae'r papur ymgynghori hwn yn garreg filltir bwysig i'r prosiect gan ei bod yn cynnwys fersiwn drafft o'r Dull Dedfrydu. Rydym wedi cynnwys esboniadau cyflwyno i bobprif rhan y Cod Dedfrydu yn pwysleisio ac esbonio'r penderfyniadau gwahanol a wnaethpwyd yn y proses drafftio. Yn ychwanegol, gofynnwn ni nifer o gwestiynau ymgynghori drwy gydol y papur ymgynghori hwn. Mae'r cwestiynau hyn yn ceisio ein cynorthwyo ni yn gwella'r Cod Dedfrydu a hoffem ni roi diolch i'r ymgynghorwyr ymlaen llaw am gymryd yr amser i gyflwyno ymatebion.
- 1.44 Bydd drafft y Cod Dedfrydu ar gael am archwiliad cyn-ddeddfwriaethol y cyhoedd dros gyfnod ymgynghori o chwe mis. Byddwn yn cynnal nifer o ddigwyddiadau ymgynghori dros y cyfnod ymgynghori hwn gyda barnwyr, academyddion ac ymarferyddion gan obeithio derbyn sylwadau manwl ynglŷn â'r strwythur a chynnwys y Cod Dedfrydu Drafft.

²⁸ Y Gyfraith Dedfrydu Lloegr a Chymru: Deddfwriaeth bresennol(2015), ar gael fel pdf electronig llawn a mewn unedau ar wahân o<http://www.lawcom.gov.uk/project/sentencing-code/>.

²⁹ Y Gyfraith Dedfrydu Lloegr a Chymru: Deddfwriaeth bresennol – Adroddiad interim (2016) ar gael ar-lein yn http://www.lawcom.gov.uk/wp-content/uploads/2016/10/Sentencing_Interim_Report_Oct-2016.pdf.

- 1.45 Bydd yr ymgynghori hwn yn cael ei wneud ar y cyd gyda "gwaith gosod". Mae ymdrechion blaenorol o gyfuno'r Ddeddf Ddedfrydu, megis Pwerau'r Ddeddf Llys Troseddau (Dedfrydu) 2000, wedi cael eu llethu gan ddeddfwriaeth bresennol eraill, Tra bod y papur yn agored i ymgynghori, byddwn yn gweithio'n agos gyda dalwyr y fantol Seneddol a'r rhai sy'n gyfrifol am ddraftio deddfwriaeth, yn sicrhau bod y Cod Dedfrydu yn aros fel prif ffynhonnell y deunyddiau dedfrydu deddfwriaethol, a bod newidiadau yn cael eu hymddeddfu mewn ffordd sy'n cadw mantais ein hagwedd newydd tuag at drefniadau trosiannol.
- 1.46 Byddwn ni hefyd yn gweithio gyda dalwyr y fantol allweddol eraill yn sicrhau bod y Dull Dedfrydu yn cael ei ddeall a'i gyflwyno yn dda. Mae rhaid bod yn gweithio ochr yn ochr â'r Canllawiau Cyngor Dedfrydu a'r Rheolau Trefniadaeth Troseddol. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r Archifau Cenedlaethol yn sicrhau bod y Cod Dedfrydu yn cael gosod yn ddigidol mewn dull addas sy'n adlewyrchu a chwblhau ei strwythur gwreiddiol. Gallai hyn cynnwys defnydd o offer arddangos arloesol yn gadael i ddefnyddwyr edrych ar ddeunyddiau allanol cyflenwol ar yr un pryd. Byddwn ni hefyd yn parhau i weithio gyda'r Coleg Barnwrol, y Swyddfa Apeliadau Troseddol a'r cyrff proffesiynol cynrychiolaidd yn sicrhau bod hyfforddiant mewn lle i ymgyfarwyddo'r Farnwriaeth ac ymarferwyr â'r Cod Dedfrydu.
- 1.47 Byddwn yn cyhoeddi fersiwn terfynol y Dull Dedfrydu ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Bydd y fersiwn terfynol yn cynnwys sylwadau a wnaethpwyd gan y ymgynghorwyr am y Cod Dedfrydu drafft a bydd yn cyd-fynd â'r adroddiad terfynol. Cyhoeddir hyn yng ngwanwyn 2018.
- 1.48 Ein bwriad ni yw gweld y Cod Dedfrydu yn cael ei ymddeddfu fel Deddf Gydgrynhoi. Bydd ein adroddiad yn ffurfio sylfaen gwaith y pwyllgor cydgrynhoi yn ymddeddfu'r Cod Dedfrydu i'r ddeddf. Byddwn yn esbonio sut mae'r proses hwn yn gweithio ym mharagraff 1.56 below.

Y COD DEDFRYDU

- 1.49 Mae pennod 2 y papur ymgynghori hwn yn edrych ar derfyn (beth sy'n cael ei gynnwys/sydd ddim yn cael ei gynnwys yn y Cod Dedfrydu) a strwythur y Cod Dedfrydu.
- 1.50 Bydd y Cod Dedfrydu yn cynnwys yr holl ddarpariaethau o deddfwriaeth sylfaenol yn eisiau gan y Llys yn cynnal *ymarfer dedfryduermwynarfer* ei waith yn iawn. Mae hyn yn cynnwys y darpariaethau rhain a osodir dyletswydd ar y llys neu'r swyddog y llys, yn ogystal â'r rhai sy'n rhoi pŵer diamod i'r llys.
- 1.51 Rydym wedi penderfynu, trwy'r cyfnod o ddraftio, i dynnu'r gyfraith yn perthyn i ddedfrydu traffig y ffyrdd, atafaelu, gweinyddiaeth a gorfodaeth.o ddedfrydau, o derfyn y Cod Dedfrydu. Er bod rhai adrannau yn barod i'w datblygu, rydym wedi trin â nhw fel ymarferion ar wahân. Mae hyn oherwydd eu bod yn sefydlu cyrff hunangynhwysol a phendant o'r gyfraith. Yn benodol, roedd y darpariaethau rhain yn perthyn i weinyddiaeth a gorfodaeth o ddedfrydu yn rhan o'n Cylchoedd Gorchwyl gyda Gweinyddiaeth Cyfiawnder i ddechrau am y prosiect hwn, ond sylweddolwyd yn fuan y byddai'n tasg enfawr i gynnwys y darpariaethau hyn o few y Cod Dedfrydu, a ni fyddai'n bosib i gyflawni hyn o fewn amser penodol y prosiect hwn a gyda'r adnoddau a fyddai ar gael. Mae adeiladwaith y Cod Dedfrydu yn ymarfer amer-sensitif. Mae cydgrynhoad y gyfraith bresennol ar weithdrefn dedfrydu wedi gorfod cael ei gwblhau o fewn amser

penodol cyfyngedig yn bennaf i osgoi deddfwriaeth newydd yn dod yn ei lle. Mae'r cyfyngiad o ran amser wedi golygu, o wybod bod adnoddau cyfyngedig a mynediad cyfyngedig i'r cwmsel seneddol, bod dull mwy cyfyngol yn addas. Roedd y penderfyniad hwn yn rhan o'n ymgynghoriad ar ein crynhoad o'r gyfraith bresennol yn perthyn i ddedfrydu a chytunodd yr atebyddion yn unfrydol.³⁰

- 1.52 Mae'r darpariaethau yn perthyn i orchmynion cyfiawnder i'r ifanc wedi cael eu tynnu o'r Cod Dedfrydu Drafft oherwydd bod adolygiad parhaol y Cyfundrefn Cyfiawnder i'r Ifanc Lloegr a Chymru yn cael ei ystyried gan y Llywodraeth yn bresennol ac er mwyn defnyddio adnoddau yn fwy effeithiol yn osgoi unrhyw ddyblygiad. Serch hynny, rydym yn bwriadu cynnwys y gorchmynion hyn yn y fersiwn terfynol o'r Cod Dedfrydu unwaith mae unrhyw cynigion diwygiad o'r llywodraeth wedi cael eu gwneud yn glir. Ble mae gorchmynion cyfiawnder i'r ifanc penodol wedi cael eu tynnu o'r Cod Dedfrydu drafft, rydym wedi cynnwys penawdau arbennig i ddangos sut i ddod o hyd i'r darpariaethau hyn yn y Cod Dedfrydu terfynol.
- 1.53 Mewn achos rhai meysydd arbennig o'r gyfraith, rydym wedi dod i'r casgliad ei bod yn annymunol i drawosod darpariaethau o'r gyfraith bresennol i'r Cod Dedfrydu oherwydd byddai'n cael effaith annymunol ar y maes penodol hwnnw o'r gyfraith.
- 1.54 Er enghraifft, mae'r Deddf Lles Anifeiliaid 2006 yn cynnwys darpariaethau yn perthyn i droseddwr sydd wedi cael eu collfarnu o rai droseddau creulondeb anifeiliaid. Mae'r darpariaethau hyn yn rhoi pŵer i'r llys wneud gorchmynion gwaharddiad, dinistriad ac amddifadu. Pe byddai'r darpariaethau hyn yn cael eu trawosod i'r Cod Dedfrydu, byddent yn cael eu tynnu o'r corff y gyfraith hunangynhwysol ac amlwg i le y dylen nhw fod sef yn Neddf Lles Anifeiliaid 2006. Yn ychwanegol, pe byddai'r defnyddiwr yn gallu dod o hyd i'r darpariaethau hyn yn y Cod Dedfrydu, yna na fyddai e/hi yn ymwybodol o'r mesurau di-ddedfrydu ar ôl yn Neddf 2006. Nid yw'n fawr o help i'r defnyddiwr sy'n disgwyl dod o hyd i'r pŵer yn y lle amlwg i ddod o hyd i flwch o ganlyniad i'r darpariaeth gael ei thrawosod i'r Cod Dedfrydu.
- 1.55 I liniaru'r effaith o beidio â bod yn gallu cynnwys bob darpariaeth o fewn y Cod Dedfrydu, mae'r Cod Dedfrydu yn cynnwys beth rydym wedi ei galw yn 'arwyddionbost'. Mae rhain yn tynnu sylw y defnyddiwr i'r pwerau a all gael eu lleolitu allan i'r Cod Dedfrydu. Mae hyn yn golygu y bydd y Cod Dedfrydu yn gynhwysfawr a bydd yn sicrhau bod defnyddwyr y Cod yn ymwybodol o'r holl ddarpariaethau deddfwriaethol perthnasol, heb ymyrryd ar gysondeb adrannau eraill y gyfraith.

Cydgrynhoad

- 1.56 Er mwyn lleihau baich y Cod Dedfrydu ar amser gwerthfawr y Senedd, ac i amlhau'r gobeithion o ymddeddfiad, bydd yn cymryd ffurf Deddf Gydgrynhoi. Disgrifir y broses o gydgrynhoi gan *Craies ynglŷn â'r Ddeddfwriaethfel*:

³⁰ Y Gyfraith Dedfrydu Lloegr a Chymru: Deddfwriaeth bresennol – Adroddiad interim (2016) ar gael ar-lein yn http://www.lawcom.gov.uk/wp-content/uploads/2016/10/Sentencing_Interim_Report_Oct-2016.pdf.

(Ailosodiad) y gyfraith bresennol ar bwnc penodol o fewn Deddf newydd sydd ddim yn gwneud unrhyw newid sylweddol ond mae'n cyflwyno'r deunydd cyfan mewn strwythur trefnus newydd a mewn iaith sy'n fodern a chyson yn fewnol.³¹

- 1.57 Mae Deddf gydgrynhoi yn ddeddf sy'n cyfuno â nifer o Ddeddfau Seneddol cyfredol ynglŷn â'r un pwnc i un Ddeddf sengl ac felly yn gwella'r eglurder a sicrwydd y gyfraith heb newid ei sylwedd neu effaith. Bydd drafftio'r Cod Dedfrydu fel Deddf gydgrynhoi yn golygu gweld mantais y gweithdrefn arbennig sy'n bodoli ar gyfer Deddfau o'r un fath. Mae'r gweithdrefn yn cymryd amser lleiaf yn siambrau dadlau'r Senedd, gyda'r Cyd Bwyllgor y dau dŷ yn ei harchwilio yn lle y Senedd yn unig.³²
- 1.58 Mae'r gweithdrefn hon yn golygu bod terfynnau ar nifer y diwygiadau posibl a allai gael eu hennill oherwydd y Cod Dedfrydu.³³ Ni fydd y Cod Dedfrydu yn cyfundrefnu'r gyfraith gwlad ynglŷn â dedfrydu neu ymddeddfu diwygio polisi o'r gyfraith yn y maes hwn fel yr ystyriwyd yn wreiddiol i fod yn rhan o'r prosiect.
- 1.59 Serch hynny, nid yw'r Cod Dedfrydu yn cydgrynhoed pur o'r gyfraith ddedfrydu. Fel yr ydym eisoes wedi esbonio, bydd yn mynd tu hwnt cydgrynhoed pur drwy weithredu "llechen lan" o ddeddfwriaeth hanesyddol, yn adlewyrchu'r argymhellion a wnaethpwyd yn yr adroddiad trosiannol.³⁴ Bydd hyn yn symleiddio'r broses dedfrydu bresennol, yn arwain at lai o gamgymeriadau a mwy o effeithiolrwydd.³⁵ Yn bellach, bydd y Cod Dedfrydu yn gwneud nifer o newidiadau symleiddio i roi eglurder a sicrwydd iddo. Er enghraifft, bydd yn gwella'r iaith a ddefnyddir yn y gyfraith yn creu strwythur rhesymegol am y tro cyntaf.
- 1.60 Er mwyn cyrraedd hyn, bydd y Cod Dedfrydu yn gofyn am ddwy ddarpariaeth wedi'u paratoi i'w cynnwys mewn Deddf llywodraeth a fydd yn blaenori'r prif gydgrynhoed; un i roi effaith y "llechen lan" ar y gyfraith ddedfrydu hanesyddol; a'r llall i ddarparu'r Ysgrifennydd Gwladol gyda'r pŵer i wneud nifer o newidiadau cyn-gydgrynhoi i'r gyfraith yn gadael i'r cydgrynhoed fynd yn ei flaen. Bydd unrhyw newidiadau cyn-gydgrynhoi a wneir i'r gyfraith o dan pŵerau o'r fath yn gyfyngedig i symleiddio a thacluso'n fach er lles cydgrynhoed y gyfraith ddedfrydu.

Y COD DEDFRYDU DRAFFT

- 1.61 Fel y nodir uchod, mae mwyafrif y papur ymgynghori hwn yn esbonio'r Cod Dedfrydu drafft sy'n cyd-fynd ag ef. Mae'n hefyd yn cynnwys nifer o gwestiynau ymgynghori ynglŷn â'r Cod Dedfrydu drafft. Gobeithiwn, gyda chymorth yr esboniad hwn, bydd ymgynghorwyr yn gallu archwilio'r Cod Dedfrydu drafft yn fanwl (neu y rhannau sydd o

³¹ D Greenberg, *Craies ynglŷn â'r Ddeddfwriaeth* (Gol 11, 2017) para 1.9.1.

³² Y Cyd-Bwyllgor ar Ddeddfau Cydgrynhoi. Am fwy o wybodaeth, gweler <http://www.parliament.uk/business/committees/committees-a-z/joint-select/consolidation-committee/> (ymwelwyd diwethaf 1 June 2017); D Greenberg, *Craies ar Ddeddfwriaeth* (Gol 11 2017) para 5.3.1-5.3.4; a Trefn a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n berthnasol i Gymru: Papur Ymgynghori (2015) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith, para 7.11-7.15.

³³ Mae'r broses o gydgrynhoi, a'r terfynnau a achosir drwy newid effaith y gyfraith, yn cael ei thrafod yn fwy manwl ym mhara **Error! Reference source not found.**isod.

³⁴ Cod Dedfrydu Newydd Lloegr a Chymru (2016) Comisiwn y Gyfraith Rhif 365.

³⁵ Trafodir manteision y llechen lan yn fwy manwl ym mharagraff **Error! Reference source not found.**isod.

ddiddordeb ac arbenigedd iddynt) a'n darparu ni gydag awgrymiadau ynglŷn â sut i'w ddatblygu yn bellach.

1.62 Mae tri atodiad yn y papur ymgynghori hwn:

- (1) Atodiad 1: Y tabl yn esbonio'r newidiadau cyn-gydgrynhoi a gynhwysodd yn y Cod Dedfrydu drafft.
- (2) Atodiad 2: Y Cod Dedfrydu drafft.
- (3) Atodiad 3: Y cymalau drafft sydd agnfen i wneud newidiadau cyn-gydgrynhoi

1.63 Mae'r Cod Dedfrydu drafft fel y cyhoeddwyd yn mynd igymalau 285 acatodiadau 18. Gwahenir i bum Grŵp Rhannau:

- (1) Darpariaethau cyflwyno ac arolwg
- (2) Darpariaethau yn berthnasol i'r Llysoedd dedfrydu yn gyffredinol
- (3) Penderfyniadau
- (4) Pŵerau ychwanegol yn perthyn i ddedfrydu.
- (5) Darpariaethau cyffredinol

Rhan 1: Darpariaethau cyflwyno ac arolwg

1.64 Mae Rhan 1 y Cod Dedfrydu drafft yn cynnwys y darpariaethau cyflwyno rhain sydd angen i ddeall sut y gweithredir y Cod Dedfrydu. *Cymal 2* yn darparu ble mae'r Cod Dedfrydu yn gymwys (ei gychwyniad) a drafodir yn fanwl ym mhennod 4 y papur ymgynghori. *Cymal 1* yn darparu arolwg am strwythur y Ddeddf gyfan - dull gwreiddiol o ddraftio. *Cymalau 277 ac 276* diffiniad o "dedfryd", cyflwyno'r syniad o gael "penderfyniad posibl" mewn Llys Dedfrydu, a manylion am sut dylai oedran y troseddwr gael benderfynu yng nghyd-destun y Cod Dedfrydu.

Rhan 2 i 4: Darpariaethau yn perthyn i'r Llysoedd dedfrydu yn gyffredinol

1.65 Mae Rhan 2 yn gosod pŵerau'r llys yn ymarferadwy cyn dedfrydu: y darpariaethau rhain yn perthyn i bŵerau'r llys yn oedi dedfrydu, neu i anfon troseddwr i ymddangos mewn llys gwahanol, ond gyda'r un pŵerau, am ddedfrydu. Maenewidiadau symleiddio bychan yn unig wedi cael eu gwneud i'r Rhan hon ac felly nid oes angen am esboniad amgaeedig.

1.66 Mae Rhan 3 yn cynnwys y darpariaethau yn rheoli gweithdrefn dedfrydu: pŵerau i orchymyn gwybodaeth ac adroddiadau; pŵer i wneud gorchmynion honiadau rhan-

ddiryms; ³⁶ dyletswydd i orchymyn tâl ychwanegol; ³⁷ dyletswydd i orchymyn tâl y llys troseddau; ³⁸ a'r dyletswyddau i esbonio ac i roi rhesymau am y ddedfryd a osodir.

- 1.67 Mae Rhan 4 yn cynnwys y darpariaethau yn perthyn i ymarfer disgrisiwn y llys yn dedfrydu: y rhesymau am ddedfrydu; cymhwysiad o Ganllawiau Dedfrydu; gwybodaeth i'w hystyried; ac asesiad o ddirifoldeb y trosedd am resymau dedfrydu.
- 1.68 Trafodir Rhan 3 a 4 ym Mhennod 5 y Papur Ymgynghori - Darpariaethau Cyffredinol.

Rhan 5 i 10: Penderfyniadau

- 1.69 Mae Rhan 5 yn cynnwys pŵerau'r llys i wneud rhyddhad amodol neu ddiamed ac amodol ynglŷn â'r trosedd.³⁹ Mae newidiadau symleiddio bychan wedi cael eu gwneud i'r Rhan hon ac felly nid oes angen am esboniad amgaeedig.
- 1.70 Mae Rhan 6 yn darparu lle i bŵerau'r llys i wneud gorchmynion cyfeirio am droseddwr o dan 18 oed. Mae hyn yn benderfyniad system cyfiawnder ieuenctid, a fel y nodir uchod, nid yw'r darpariaethau rhain wedi cael eu hail-ddrafftio i'r Cod Dedfrydu drafft oherwydd bod cyfyngiadau ar adnoddau ac mae'r tebygrwydd o gael adolygiad ar fin dechrau.
- 1.71 Mae Rhan 7 yn cynnwys pŵerau'r llys i wneud gorchmynion ariannol a gorchmynion yn perthyn i eiddo. Mae hyn yn cynnwys pŵerau'r llys i orchymyn talu ffioedd; i osod gorchmynion digollediad; ac i wneud gorchmynion yn fforffedu neu amddifadu'r troseddwr o eiddo. Mae hefyd yn lle i gynnwys gorchmynion adfer,⁴⁰ er nad yw'r darpariaethau rhain wedi cael eu cynnwys eto yn y Cod drafft. Trafodir hyn ym Mhennod 9 y Papur Ymgynghori - Dirwyon a Gorchmynion Ariannol.
- 1.72 Mae Rhan 8 yn cynnwys darpariaethau yn perthyn i'r pŵer i wahardd troseddwr rhag gyrru, gwahardd troseddwr rhag berchen rhai anifeiliaid a gwahardd troseddwr rhag bod yn gyfarwyddwr cwmni.

³⁶ Mae gorchmynion honiadau rhan-ddiryms yn orchymynion a wnaethpwyd gan Llys y Goron yn gosod ataliadau adrodd ar honiadau ffug neu amherthnasol a wneir gan y troseddwr neu'i eiriolwr yn ystod y cyfnod o ddedfrydu sy'n rhan-ddiryms i gymeriad y person. Mae'r pŵerau i wneud y fath gorchmynion yn cael eu cynnwys yn y Ddeddf Trefniadaeth ac Ymchwiliadau Troseddol 1996, ss 58 i 61.

³⁷ Yn rhinwedd Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003, s 161A, mae rhaid i'r llys, wrth ddedfrydu troseddwr am drosedd a draddodwyd ar ôl 1 Ebrill 2007, orchymyn y troseddwr i dalu gordal. Mae'r gordal yn cael ei adnabod ar lafar fel 'gordal dioddefwr' gan fod yr arian a godir trwyddo yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gwasanaethau dioddefwyr.

³⁸ Yn rhinwedd Deddf Erlyniad Troseddau 1985, s 21A, mae gan y llys, wrth ddedfrydu troseddwr am drosedd a draddodwyd ar neu ar ôl 13 Ebrill 2015, ddyletswydd i osod gorchymyn gordal llys troseddau. Mae gorchymyn gordal llys troseddau yn orchymyn i dalu tâl ynglŷn â'r cost o gael y farnwriaeth a systemau eraill o fewn y llys .

³⁹ Ble mae'r llys o'r farn, wrth ystyried amgylchiadau'r trosedd a'r troseddwr, nad yw'n anghenrheidiol neu'n addas i osod cosb, gall y llys wneud gorchymyn i ryddhau'r troseddwr. Gall y rhyddhad fod yn un diamod neu'n amodol. Pe fyddai'r troseddwr yn cael ei ryddhau'n amodol, yna byddai un amod yn unig sef i beidio â thraddodi eto o fewn terfyn amser neilltuol (ni fydd yn fwy na dair blynedd) - pe fyddai'r troseddwr yn traddodi eto, yna fyddai'r troseddwr yn agored i gael ei ail-ddedfrydu am y trosedd. Ni fydd y gollfarn yn cael ei hystyried ar gyfer dibenion dyfodol a dyna'r effaith y rhyddhad.

⁴⁰ Mae gorchymyn adfer yn orchymyn a wneir gan y llys i ddychwelyd eiddo wedi'i ddwyn (neu werth yr eiddo wedi'i ddwyn) i'r person sy'n piau'r eiddo.

- 1.73 Mae Rhan 9 yn cynnwys darpariaethau yn perthyn i bŵerau'r llys i osod dedfrydau cymunedol. Mae'r darpariaethau rhain yn bennaf yn perthyn i osod gorchmynion cymunedol. Er nad yw'r gorchmynion yn benodol i gyfundrefn cyfiawnder ieuencid - gorchmynion ailsefydlu ieuencid - wedi cael eu cynnwys yn y Cod Drafft, mae lle wedi cael ei baratoi. Trafodir y Rhan hon ym Mhennod 7 y Papur Ymgynghori - Gorchmynion Cymunedol.
- 1.74 Mae Rhan 10 yn cynnwys y darpariaethau yn perthyn i bŵerau'r llys yn gosod dedfrydau o garchar. Mae hyn yn cynnwys y darpariaethau cyffredinol yn rheoli gosod dedfryd o garchar; yr amrywiadau ar gael mewn cosb o garchar i'r rhai sydd o dan 18 oed, 18 i 20 oed, a 21 oed a throsodd; y darpariaethau dedfrydu lleiaf yn berthnasol i rai troseddau; effaith dedfrydau oes; a gweinyddiaeth dedfrydu.
- 1.75 Mae Rhan 11 hefyd yn cynnwys y darpariaethau yn perthyn i bŵerau'r llys i atal dedfryd o garchar lle mae'n ond yn cael ei gweithredu os cyflawnir trosedd arall, neu ble mae'r gofynion sydd yn gysylltiedig â'r ddedfryd ataliedig yn cael ei thorri.
- 1.76 Trafodir y darpariaethau rhain yn perthyn i bŵerau'r llys i atal dedfrydau o garchar (gweler Rhan 10 uchod) ym Mhennod 8 y Papur Ymgynghori - Gorchmynion Dedfrydau Ataliedig. Trafodir y darpariaethau eraill rhain ym mhennod 9 y Papur Ymgynghori - Dalfa.

Rhan 12 i 14: Pŵerau ychwanegol yn perthyn i ddedfrydu

- 1.77 Mae Rhan 12 yn cynnwys darpariaethau yn perthyn i bŵerau'r llys i adolygu dedfrydau a osodwyd yn flaenorol - naill ai oherwydd bod troseddwr wedi cytuno i helpu gydag erlyniad pellach, wedi cael lleihad i'r dedfryd heb roi llawer o help, neu wedi cytuno i helpu yn dilyn dedfrydu.
- 1.78 Mae Rhan 13 yn cynnwys darpariaethau yn perthyn i ymrwymadau.⁴¹
- 1.79 Mae Rhan 14 yn cynnwys y darpariaethau thain yn perthyn i orchmynion atodol eraill. Mae rhain yn cynnwys y pŵer i wneud gorchmynion ymddygiad troseddol,⁴² gorchmynion atal (yn dilyn rhyddfarn a cholffarn) a gorchmynion ymddygiad eraill.⁴³
- 1.80 Trafodir Grŵp Rhannau ym Mhennod 10 y Papur Ymgynghori - Gorchmynion Atodol.

⁴¹ Mae ymrwymiad yn swm o arian a ddarperir mewn cydnabyddiaeth o orfodaeth - yng nghyd-destun dedfrydu, mae ymrwymiad yn aml yn cael ei ddarparu fel meichiau, ac ar yr amod bod y troseddwr yn dychwelyd i'r llys pan yn ofynnol.

⁴² Cyflwynwyd gorchmynion ymddygiad troseddol yn rhan 2 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014, yn ailosod Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBOs). Gall y gorchmynion gael eu gosod gan y llys wrth ddyfarnu neu wrth osod cyfyngiadau ar ymddygiad y troseddwr i'w atal rhag cymryd rhan mewn ymddygiad a fydd yn achosi aflonyddwch, dychryn neu ofid i eraill.

⁴³ Mae gorchmynion ymddygiad yn orchmynion a osodir gan y llys troseddau, wrth ddyfarnu. gyda'r bwriad o reoli'r ymddygiad dyfodol y deiliad, naill ai drwy argymhell ymddygiad penodol (e.e. gorfodi'r deiliad i adrodd ei gyfeiriad i'r heddlu) neu wahardd ymddygiad penodol (e.e. gweithio fel cyfarwyddwr cwmni), pa un ai am gyfnod penodol neu amhenodol o ddyddiad y gorchmyn.

Rhan 15 a 16: Darpariaethau cyffredinol

- 1.81 Mae Rhan 15 yn cynnwys darpariaethau amrywiol yn perthyn i ddedfrydu; gan gynnwys y pŵer i newid dedfryd Llys y Goron o dan y "rheol llithriadau"⁴⁴ ac i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheolau yn perthyn i orchmynion cymunedol a gorchmynion dedfrydau ataliedig.
- 1.82 Mae Rhan 16 yn cynnwys y darpariaethau yn perthyn i ddehongliad y Cod Dedfrydu, y gweithdrefn yn rheoli rheolau a wnaethpwyd oddi tani, pŵerau i'w newid, a darpariaethau trosiannol a newidiadau canlyniadol.
- 1.83 Nid oes angen esboniad amgaeediger bod penodau 3 a 4 yn cyffwrdd â Rhan 15.

YMGYNGHORI

- 1.84 Bydd ymgynghori ar y Dull Dedfrydu Drafft ar agor am gyfnod o chwe mis, yn cau ar 26 Ionawr 2018. Rydym yn gwahodd ymgynghorwyr i archwilio'r Cod Dedfrydu drafft yn fanwl, yn edrych am unrhyw gamgymeriadau neu hepgoriadau, yn ogystal â chyfeirio at y papur ymgynghori amgaeedig a'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn. Nid ydym yn disgwyl unrhyw un ymgynghorwr i ymgymryd â'r Cod Dedfrydu drafft i gyd ond bydden ni'n annog i ymgynghorwyr i ymgymryd ag unrhyw meysydd sydd o ddiddordeb neu arbenigedd iddynt. Rydym yn croesawu sylwadau am eiriad y drafft newydd, strwythur y Cod Dedfrydu drafft, a'i holl cynnwys. Hoffen ni atgoffa ymgynghorwyr ei bod tu allan tasg y prosiect hwn i wneud newidiadau polisi sylweddol i'r gyfraith ar ddedfrydu.
- 1.85 Dylai ymatebion ymgynghori gael eu hanfon:
- (1) Drwy e-bost at: sentencing@lawcommission.gsi.gov.uk; neu
 - (2) Drwy'r post at: Lyndon Harris, Comisiwn y Gyfraith, Blwch Post 1.54, 1af Llawr, the Tower, 52 Queen Anne's Gate, Llundain, SW1H 9AG.
- 1.86 Gallem gyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth a ddaparwch i ni mewn ymateb i'r ymgynghoriad yma, gan gynnwys gwybodaeth bersonol. Er enghraifft, efallai y byddwn yn cyhoeddi darn o'ch ymateb yng nghyhoeddiadau Comisiwn y Gyfraith, neu'n cyhoeddi'r ymateb i gyd. Efallai y bydd yn ofynnol i ni ddatgelu gwybodaeth hefyd, er enghraifft, yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
- 1.87 Os hoffech chi i ni drin y wybodaeth y byddwch yn ei rhoi yn gyfrinachol, cysylltwch â ni yn gyntaf. Er hynny, ni allwn sicrhau bod modd cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol bob amser. Ni fydd ymwadiad awtomatig a gynhrychir gan eich system TG yn cael ei ystyried yn rhwymedigaethol gan Gomisiwn y Gyfraith. Bydd Comisiwn y Gyfraith yn prosesu eich data personol yn unol â Deddf Diogelu Data 1998

⁴⁴ Mae Rhan 155 y Ddeddf Pŵerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000 yn rhoi pŵer i'r llys gywiro camgymeriadau ac i wneud newidiadau bychan i ddedfrydau a osodwyd. Mae'r pŵer yn cael ei adnabod ar lafar fel y rheol llithriadau.

Cwestiwn Ymgynghori1.

Ydy'r Cod Dedfrydu drafft yn adlewyrchu'r gyfraith bresennol ar ddedfrydu wrth ystyried y newidiadau cyn-gydgrynhai sydd wedi cael cynnig, ac effaith y llechen lan?

Y TÎM YN GWEITHIO AR Y PROSIECT

- 1.88 Mae'r aelodau canlynol y tîm cyfraith troseddol wedi gweithio ar y papur ymgynghori hwn ar adegau gwahanol: Jessica Ugucioni (rheolwr tîm); Paul Humpherson (cyfreithydd tîm); Lyndon Harris (cyfreithydd tîm); Karl Laird (cyfreithydd tîm); Vincent Scully (cynorthwydd ymchwil); Sebastian Walker (cynorthwydd ymchwil) and Harry O'Sullivan (cynorthwydd ymchwil).
- 1.89 Rydym yn ddiolchgar i'r Swyddfa y Cwnsel Seneddol am fod yn gyfrifol am baratoi'r Cod Dedfrydu Drafft.

